**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG A GYNHALIWYD AR 18FED MEDI 20223**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dafydd Dafis (yn y Gadair yn absenoldeb y Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rory Francis

Y Cynghorydd Mark Thomas

Y Cynghorydd Morwenna Pugh

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y cynghorwyr canlynol: Linda Ann Jones, Eifiona Davies, Marc Lloyd Griffiths.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023. Cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas eu bod yn gofnod cywir a chytunodd pawb.

**5. Adroddiadau Caeau Chwarae**

Cyflwynwyd adroddiadau arolygu misol caeau chwarae'r Cyngor Tref ar gyfer Awst a Medi 2023. Materion yn codi ohonynt:

- Ysgol y sleid yng Nghae Bryn Coed – cytuno rhoi hyn ar restr y Swyddog Cynnal a Chadw
- Y Berllan. Roedd angen adeiladu gwelyau yn y Berllan a chreu llwybrau rhyngddynt, ynghyd â chodi ffens i atal defaid yno – cytuno rhoi hyn ar restr y Swyddog Cynnal a Chadw.Roedd Y Cynghorydd Mark Thomas hefyd yn aros am bris i gael gwneud bwrdd o lechen ar gyfer y safle. Roedd wedi cael prisiau sglodion coed, a sliperi rheilffordd ar gyfer y bont. Roedd hefyd angen archebu bylbiau. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y deunydd angenrheidiol yn cael ei archebu a chytunodd pawb, a bod Y Cynghorydd Mark Thomas yn cymryd cyfrifoldeb dros archebu'r hyn oedd ei angen. Awgrymodd Y Cynghorydd Mark Thomas hefyd bod y Clerc yn holi Alfa Tree Services i weld os oedd sglodion coed i'w cael ganddyn nhw. Soniwyd hefyd efallai y byddai grantiau ar gael gan Bartneriaeth Natur Gwynedd a chytunwyd bod y Clerc yn holi i weld os oedd unrhyw beth ar gael.

DRAFT

DRAFT

- Y Parc. Dywedodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh, ar ôl llwyddiant digwyddiad Hwyl yn y Parc 2023, bod trafodaethau yn mynd rhagddynt i atgyfodi Partneriaeth y Parc. Y syniad oedd defnyddio ardal y cwrt tennis i greu lle chwarae aml-chwaraeon ar gyfer tennis, pêl fasged ac ati gan roi llinellau priodol ar y llawr. Roedd y gwrychoedd wedi gordyfu yno ac angen eu torri/symud ymaith ac roedd angen mwy o blanhigion. Adroddwyd bod rhieni plant yn holi os oedd y siglen Nyth Aderyn yn dod yn ôl a chytunodd y Clerc holi i weld beth oedd yn digwydd gyda hynny. Roedd rhieni hefyd yn gofyn os oedd modd cael mwy o offer chwarae yno. Roedd angen gwneud gwaith cynllunio nawr er mwyn bod yn barod. Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas mai nawr oedd yr adeg o'r flwyddyn i wneud y gwaith plannu ac ati. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn prynu sach fawr o hadau ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh. Unwaith y ceir y lle i drefn, gofyn am brisiau i wneud y gwaith. Offer golff y Parc: Trafodwyd yr offer golf gwirion a symudwyd o'r Parc a chytunwyd cynnwys eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Mwynderau i ystyried gwerthu'r offer.
- Delio gyda thoriadau gwair o'r caeau chwarae ac ati. Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod angen clirio tipyn ar yr ardal wrth y Cwt Canŵs lle roedd y toriadau yn cael eu compostio a chlirio coed yno. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y gwaith yn cael eri roi ar restr y Swyddog Cynnal a Chadw a chytunodd pawb.
- Sgwâr Oakeley. Nid oedd y gwair wedi ei dorri yn iawn yno.
- Cae Baltic. Nid oedd y gwaith clirio gordyfiant wedi ei wneud a chytunwyd holi'r Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths i weld os oedd wedi gallu cysylltu gyda'r person priodol.

**6. Llwybrau Cyhoeddus**

Cyflwynwyd adroddiadau diweddaraf y Cerddwr Llwybrau. Nodwyd bod Llysiau'r Dial i'w gweld yn tyfu ar un o'r llwybrau a dywedodd Y Cynghorydd Rory Francis y byddai'n ebostio'r Clerc er mwyn iddi allu adrodd am hynny i irecord.org.uk

**7. Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Roedd Gwyn Thomas wedi gwneud gwaith i glirio sbwriel o Ardd Encil. Cytunwyd bod rhestr o waith y Swyddog Cynnal a Chadw yn cael ei chynnwys fel eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Mwynderau bob mis.

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben soniwyd am ddwy gŵyn roedd dau gynghorydd wedi eu derbyn ynglŷn â thoiledau maes parcio Diffwys a chytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda'r Cygnor Sir ynglŷn â hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm